CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

# Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 7 Tachwedd 2016

Presennol: Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyngr: Mrs Amanda Edwards, Iwan Davies, Colin Lewis, Mrs K Morgan

Cyng Sirol H Lewis

Aelodau'r cyhoedd: 0

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth: Cyngr B Rees, P Hazzelby, Mrs J Hawkes, Mrs E Davies

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**

Dim.

**4. Materion Personol**

Roedd y Cyng P Hazzelby a'i deulu ym meddyliau'r Cyngor yn ystod salwch ei wraig yn ddiweddar.
Llongyfarchwyd y CS H Lewis ar ddathlu ei ben-blwydd priodas yn 50.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

*A160911* Ystafell wydr arfaethedig ac Estyniad Llawr Cyntaf, Llysteifi, Llechryd, Aberteifi.
Nid oedd gan y Cyngor Cymuned ddim gwrthwynebiad i'r cais.

Dywedodd y CS H Lewis y dylai Cyngor Sir Ceredigion i (CSC) fod yn cychwyn arolwg o ffiniau'r CDLl yn 2017 ac awgrymodd efallai y byddai'r Cyngor Cymunedol yn dymuno cwestiynu hyn.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cynigiodd y Cyng CS H Lewis y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliodd y Cyng H Davies, cytunwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**

Nodwyd bod arwyddion wedi'u codi ynglŷn â'r cynllun 'Mabwysiadau Llwybr'.
Gofynnwyd beth oedd agweddau Cynghorau Tref a Chymuned eraill i'r dreth fusnes sy'n cael ei chodi am gyfleusterau cyhoeddus.
Dywedodd y Clec y byddai'n mynd i gyfarfod SLCC ac y byddai'n holi yn y fan honno.
.

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Abacus Cleaning Ser | Toiledau cyhoeddus | | 170.00 |
| Newsquest Wales | Hysbyseb torri porfa | talu | 81.60 |
| Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion | Rhodd | | 200.00 |
| Theatr Felin-fach | Rhodd | | 200.00 |
| Cym. Lesiannol Amaeth. Frenhinol | Rhodd | | 200.00 |
| Age Cymru Ceredigion | Rhodd | | 200.00 |
| Shelter Cymru | Rhodd | | 200.00 |
| Theatr Troedyrhiw | Rhodd | | 200.00 |
| E A Owens | Torri porfa | | 1,200.00 |
| S E Houghton | Swyddfa'r cartref/lluniaeth gwasanaethau cyflwyno | | 48.44 |
| Sue Houghton | Cyflog Tach | AS | 322.53 |

*Gweddill wedi'i gymhwyso* – Cyfrif y Trysorydd ar 28.10.16 £20050.31
Cynigiwyd: Cyng I Davies, eiliwyd Cyng C Lewis, penderfynwyd yn unfrydol

Roedd y Clerc wedi cael rhybudd asesiad o brisiad treth ar gyfer y bloc toiledau. Ni allai gael y wybodaeth ar-lein ac roedd wedi mynd i chwilio amdani. Y dyddiad cau ar gyfer adolygiadau oedd 30.11.16. Cytunwyd, os oedd y prisiad wedi codi, i fynd i holi am hyn ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.
**GWEITHREDU:** Holi GAN: Y Clerc

*Cyllideb* – Ail Ddrafft i'w drafod
Mynegodd y Clerc ei gofid nad oedd gan y Cyngor ddigon o arian wrth gefn. Dywedodd bod y gwaith ar y cae chwarae wedi llyncu cryn lawer o'r cronfeydd presennol.

Dywedodd hefyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor bleidleisio ar bob cynnig yn yr Ymgynghoriad ar y Drafft o adroddiadau Blynyddol IRPW - Chwefror 2017 a allai effeithio ar ffigurau'r gyllideb.

Ar ôl trafod, cytunwyd i ddechrau cyfarfod mis Rhagfyr am 6pm i drafod y gyllideb yn llawn, yn Neuadd y Cwrwgl os gellid ei hurio.
**GWEITHREDU:** Newid y trefniant i Neuadd y Cwrwgl os byddai'n bosibl GAN: Y Clerc

*Cais am rodd* oddi wrth Gyngor Cymuned Llandysul
Cytunwyd i gyfrannu £200 tuag at redeg Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017.
**GWEITHREDU:** Trefnu taliad GAN: Y Clerc

*Elusen:*
Dywedodd y Clerc ei bod wedi dechrau edrych ar y TAW ond bod rhai cofnodion ariannol ar goll. Byddai'n cyfeirio orau y gallai at y cofnodion lle nad oedd cofnodion ariannol ar gael ac yn dweud hynny wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Dywedodd hefyd , gan nad oedd gan yr Elusen gofnodion o fis Chwefror 1990, y credai y dylai holl ffurflenni'r Comisiwn Elusennau ddangos sero. Talodd y Cyngor Cymuned am yr holl waith, ac roedd y swm a wariwyd wedi'i dangos yn ffurflen yr Elusen ac yng nghofnodion y Cyngor cyn belled ag yr oedd hi'n deall pethau.

*Cyn i'r CS H Lewis adael y cyfarfod* codwyd y cwestiwn ynglŷn â dosbarthu tai. Er bod y Cyngor yn derbyn bod tai'n cael eu dosbarthu ar sail system o bwyntiau wedi'u cyfrif ar sail angen, nid oedd dim pwyslais ar angen lleol. Doedd gan deuluoedd yn dod i mewn i'r pentref yn aml ddim cysylltiad lleol a doedden nhw ddim yn defnyddio'r ysgol leol ar gyfer eu plant, tra oedd teuluoedd â chysylltiad lleol cryf drwy fod wedi byw yma o'r blaen neu ymrwymiad gwaith yn cael eu gwrthod. Roedd effaith hyn ar y gymuned yn sylweddol.
**GWEITHREDU:** Ysgrifennu at CSC ac Un Llais Cymru ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer dosbarthu GAN: Y Clerc

*PAYE* – Roedd Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cadarnhau beth oedd ei angen. Ar ôl gorffen y gwaith TAW byddai'r Clerc yn dechrau ar y gofynion PAYE.

Nodwyd bod yr hysbyseb am y contract torri porfa wedi'i rhoi yn y Tivyside (defnyddiwyd y cerdyn debyd). Roedd y manylion diwygiedig (torri'n amlach, clirio llwybrau a lonydd a chymhennu o gwmpas yr adeiladau yn yr hen eglwys) wedi'u harchwilio gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

*Cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd 2017* - sylwi ar ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfarfod mis Mai (blwyddyn etholiad)
Derbyniwyd y dyddiadau fel y cawsant eu cyflwyno.
**GWEITHREDU:** Hurio'r ystafelloedd GAN: Y Clerc

*Yn unol â thelerau ei phenodiad* gofynnodd y Clerc i'r Cyngor ystyried codiad cyflog blynyddol o SCP 15 - £8.717 i SCP 16 £8.924 dros 37 awr y mis ar ôl ei chyflogi am fwydyn gan y Cyngor.
Cynigiwyd gan: Cyng Mrs A Edwards, eiliwyd gan y Cyng K Symmons, cytunwyd yn unfrydol.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Plât enw'r pentref sydd wedi'i niweidio* (Llangoedmor) i gael ei adnewyddu gan CSC
Nodwyd.

*Blychau blodau* – yn disgwyl i CSC roi gwybod am gyfarfod ynglŷn â'u hadnewyddu.
Nodwyd.

Gofynnodd y Cyng C Lewis *am i'r Cyngor ofyn i CSC fabwysiadu polisi* o ddefnyddio arwyneb ffyrdd tawel mewn mannau preswyl. Ar ôl trafodaeth cytunwyd i ysgrifennu ar CSC i ofyn am i hyn gael ei ystyried.
**GWEITHREDU:** Ysgrifennu at CSC GAN: Y Clerc

Adolygiad deng mlynedd o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.
Nodwyd.

**10. Amwynderau**
*Clawdd y cae chwarae* – Roedd y Clerc wedi anfon llythyron at ddeiliaid yr holl dai oedd yn ffinio â'r lle chwarae. Roedd un cwestiwn wedi'i godi a dim gwrthwynebiadau wedi'u cyflwyno.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â Chontractiwr i wneud y gwaith GAN: Y Clerc

Roedd y Cyng Mrs A Edwards wedi cael gwybod bod arian wedi'i dalu i Gyngor Cymuned arall ar gyfer cyfarpar chwarae, drwy Gronfa Gymunedol Aviva. Roedd y Clerc yn dweud nad oedd ganddi hi amser, o gofio'r gwaith TAW a PAYE, i wneud dim mwy na

chwilio am wybodaeth. Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards y byddai hi'n edrych ar y wybodaeth ond nad oedd ganddi amser i lunio cais am grant. Cytunwyd ar hyn.
**GWEITHREDU:** Cael gwybodaeth am y gronfa a'i hanfon at y Cyng Mrs A Edwards GAN: Y Clerc

*Meinciau:* Roedd dau ddyn ifanc wedi'u gweld yn fwriadol yn neidio ar y seddau/byrddau nes iddyn nhw dorri. Nid oedd y dynion ifanc wedi'u hadnabod. Cytunodd y Cadeirydd i drwsio'r meinciau. Gobeithid yn y dyfodol y byddai unrhyw un sy'n gweld y fath fandaliaeth yn galw'r Heddlu ar 101 ac yn rhoi gwybod am hyn.
**GWEITHREDU:** Trwsio'r meinciau GAN: Y Cadeirydd

*Bloc toiledau – gwaith trydan*
Ar ôl cysylltu â chwmnïau eraill, cytunwyd i dderbyn y dyfynbris gan Lewlec am y gwaith, sef £498 + TAW.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â Lewlec GAN: Y Clerc

Nodwyd hefyd bod Mr Rees, Abacus Cleaning Services, wedi sôn am dap oedd yn rhedeg a'i fod wedi methu â'i drwsio ei hun. Roedd y Clerc wedi cael enw plymwr lleol a oedd wedi ymchwilio i'r mater ond heb ddod o hyd i broblem. Cytunwyd i ddiolch i Mr Mark Jerehmiah gan nad oedd wedi codi tâl am ymchwilio i'r mater.
**GWEITHREDU:** Llythyr i ddiolch GAN: Y Clerc

**11. Prosiectau'n parhau**
*Gwylio Cyflymder:* Roedd CSC wedi cadarnhau nad oedd dulliau monitro traffig bellach yn cael eu cynnal. Roedd y Clerc wedi gofyn i CSC a allai gwybodaeth o'r monitor dros dro fod ar gael. Gofynnodd y Cyngor am ganiatâd i siarad â CSC oherwydd teimlid y gellid gwneud rhagor, am ychydig gost, i storio gwybodaeth am y monitor presennol.
Cytunwyd i hyd.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â CSC GAN: Y Cyng C Lewis

*Llythyr Newyddion* – costau ar gyfer y gyllideb.
I'w gadarnhau.

*Cynllunio mewn argyfwng*
Gohiriwyd

*Diffibrileiddiwr*
Hyfforddiant – y Cyng Mrs A Edwards i gadarnhau dyddiad
**GWEITHREDU:** Dyddiadau hyfforddiant GAN: y Cyng A Edwards

**12. Digwyddiadau**
*Torch*
Roedd torch o flodau pabi wedi'i phrynu. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn gosod y dorch wrth y garreg goffa yn yr hen eglwys ar Sul y Cofio (13.11.16).

*Cyfarfod Ymgynghorol CSC, 23.11.16*
Dywedodd y Cadeirydd efallai na fyddai'n gallu mynd. Cytunwyd y byddai'r Cyng C Lewis yn mynd yn ei le. Y cwestiynau i CSC fyddai: Dosbarthu tai ac angen lleol, defnyddio'r monitor traffig a'i gynnal a'i gadw, a threthi cyfleusterau cyhoeddus, a'r angen am lwybr troed rhwng Llechryd ac Aberteifi.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

*Goleuadau'r Nadolig: 6pm, 1.12.16*
Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at Mr Penny ynglŷn â chynnau'r goleuadau ond nid oedd wedi cael cadarnhad ei fod yn barod i archwilio'r goleuadau a gosod dyfeisiau amseru.
**GWEITHREDU:** Siarad â Mr Penny GAN: Y Cyng Mrs A Edwards

Gofynnwyd a allai system o oleuadau solar gael ei gosod ar gyfer goleuadau'r Eglwys.
**GWEITHREDU:** Eitem ar yr agenda GAN: Y Clerc

Gofynnodd y Cyng Mrs A Edwards a allai Neuadd y Cwrwgl ddefnyddio'r goleuadau Nadolig a oedd wedi'u storio yn nhaflod y neuadd. Roedd y geiriau 'Community Council ar y blwch roedd y goleuadau ynddo. Cytunwyd bod croeso i'r Neuadd ddefnyddio'r goleuadau.

Nodwyd y byddai'r ysgol yn cynnal ei Ffair Nadolig ar noson cynnau'r goleuadau a gobeithid y byddai'r Cynghorwyr, ar ôl y goleuadau a'r carolau yn gallu dod. Byddai'r 7 Seren yn cael ei hurio ar gyfer 7pm.
**GWEITHREDU:** Cadarnhau hurio'r 7 Seren GAN: Y Cadeirydd

*Adroddiad ar y Gwasanaethau Cyflwyno*
Cytunwyd i ysgrifennu llythyr i ddiolch i'r Cyng B Rees am drefnu'r gwasanaethau. Gofynnodd y Clerc i unrhyw un oedd â lluniau o'r digwyddiadau y gellid eu gosod ar y wefan hanfon ati.
**GWEITHREDU:** Llythyr i ddiolch GAN: Y Clerc

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**14. Gohebiaeth / + gohebiaeth e-bost**
*2018 Arolwg o Etholaethau Seneddol yng Nghymru*

Er bod y Cyngor yn nodi'r angen am wneud nifer yr etholwyr mewn etholaeth seneddol yn fwy cytbwys, nodwyd bod arwynebedd arfaethedig Ceredigion a Gogledd Sir Benfro yn ddaearyddol yn rhy fawr i sicrhau cynrychiolaeth Seneddol effeithiol.
**GWEITHREDU:** Ymateb i'r ymgynghoriad GAN: Y Clerc

*Un Llais Cymru - Diwygio Llywodraeth Leol - y diweddaraf*
Nododd y Clerc fod y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i gael ei symud ymlaen, a'r meini prawf blaenorol oedd: 2/3 o Gynghorwyr i gael eu hethol, archwiliad heb ei gymhwyso am 3 blynedd, a Chlerc cymwysedig (roedd y Clerc yn bodloni gofynion y meini prawf blaenorol).

*Gohebiaeth wedi'i nodi:*
Asesiad Strategol Troseddu ac Anhrefn Ceredigion 2017

Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

Un Llais Cymru - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - ar beth y dylai ganolbwyntio?

Ymgynghoriad ar Strategaeth newydd y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru

Dweud eich Dweud - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Newyddion Trysorlys Cymru

Hyfforddiant Un Llais Cymru

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020/ Consultation: Welsh in Education Strategic Plan 2017-2020

*Hyfforddiant Pencampwr Dementia/ Dementia Champion Training

Cysylltiad Cymunedol â/r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Un Llais Cymru: Gwasanaethau Ymgynghori

Newyddion diweddaraf gan Un Llais Cymru

Cyflwyniad Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Cymru i Bawb

Llyfrynnau Caru Ceredigion

Debyd Uniongyrchol y Clerc a'r Cyngor

CCB AGE Cymru 2016, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Ystafell y Llywydd, 17.11.16, 2pm

Swydd wag - Comisiynydd Etholiadol, Cymru

AROLWG O'R SAFONAU CENEDLAETHOL AR GYFER Y CYNGHORAU IECHYD CYMUNED

Arolwg ar droed o Heneiddio'n Dda i gymdogaethau

Newyddion diweddaraf gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Gwobrau Cenedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru 2017

Rhaglen 2017 Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Dywedodd y Cyng C Lewis ei fod wedi mynegi gofid am y bwriad i gau ffyrdd gan Dŵr Cymru. Ar ôl trafod ei bryderon cytunwyd y dylai'r Clerc fynd â'r mater ymhellach.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â Dŵr Cymru GAN: Y Clerc

Dywedodd y Cyng A Edwards fod canolfan garddio Penrallt wedi cysylltu â hi ynglŷn â darparu mainc, i Mr Leigh ei gosod er cof am ei wraig.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â chanolfan garddio Penrallt GAN: Y Clerc

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5.12.16 - 6.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.15pm*.